Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 22 Tachwedd 2017

9.30 - 12.10

Y Llwyfan, Caerfyrddin

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Dr Haydn E Edwards (Cadeirydd) William Callaway, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Gwilym Dyfri Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd)
Sylwedyddion:	Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Savanna Jones, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd Catherine Rees, Ysgrifennydd Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Nia Brown, Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth
Ymddiheuriadau:	Ellen Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. 2.2 Datganodd Gwilym Dyfri Jones ddiddordeb yn Eitem 7 – Adroddiad y Prif Weithredwr am ei fod yn gyflogedig gan sefydliad sy'n cyflwyno cais i weithredu fel canolfan hyfforddi athrawon.		
3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfodydd 21 Mehefin a 19 Medi 2017	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 21 Mehefin a 19 Medi 2017.		
4. Materion yn codi	**Cofnodion 21 Mehefin 2017** 4.1 <u>Eitem 10.2 – Banc Barclays</u> Adroddwyd bod banc Barclays wedi addo cynnig gwasanaeth Cymraeg llawnach, yn cynnwys ffurflenni cyfarwyddwyr, erbyn diwedd Mai 2018.		
5. Materion Llywodraethiant (Eitem 5)	**Penodi Cyfarwyddwyr**		

	5.1 Cymeradwywyd ail-benodi Dr Rhodri Llwyd Morgan fel cyfarwyddwr am dymor pellach o 3 Tachwedd 2017 tan 2 Tachwedd 2021. 5.2 Cymeradwywyd ail-benodi'r Athro Jerry Hunter fel cyfarwyddwr am dymor pellach o 26 Tachwedd 2017 tan 25 Tachwedd 2021. 5.3 Nodwyd bydd y Pwyllgor Penodiadau'n cwrdd cyn y Nadolig i drafod penodi Cyfarwyddwyr yn sgil ymddiswyddiad Geraint James a diwedd tymor Linda Wyn.		
	Gweithgor y Cyfansoddiad		
Atodiad A	5.4 Derbyniwyd cofnodion Gweithgor y Cyfansoddiad a gynhaliwyd ar 27 Medi 2017.		
Atodiad B	5.5 Cyflwynodd yr Athro Iwan Davies argymhellion y Gweithgor ar Erthyglau Cymdeithasu'r Coleg. Eglurodd eu bod yn adlewyrchu argymhellion adolygiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a chyngor cyfreithiol cyfreithiwr y Coleg. Amcan y Gweithgor oedd diwygio'r cyfansoddiad i adlewyrchu rôl y Coleg i fod yn gorff strategol cenedlaethol ar draws sectorau addysg ôl-orfodol. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i dderbyn y newidiadau gan gynnwys man sylwadau, i'w cyflwyno i'r Llys ar 7 Mawrth 2018.	Erthyglau Cymdeithasu diwygiedig i'w cyflwyno i'r Llys	7 Mawrth 2018
Atodiadau C a Ch	**Dogfen Llywodraethiant**		
	5.6 Derbyniwyd a chymeradwywyd Dogfen Llywodraethiant a fframwaith pwyllgorau newydd a ddaw i rym ar 31 Mawrth 2018 ac i'w hadolygu'n flynyddol. Argymhellwyd nodi dull a modd penodi cyfarwyddwyr ac aelodau pwyllgorau.	Dogfen Llywodraethiant i'w hadolygu'n flynyddol	Yn flynyddol

Atodiad D	**Holiadur ar gyfer Cyfarwyddwyr** 5.7 Derbyniwyd a chymeradwywyd holiadur ar gyfer adolygu a gwella perfformiad y cyfarwyddwyr i'w gwblhau'n flynyddol. **Trefniadau'r Llys a'r Cynulliad Blynyddol** 5.8 Nodwyd y cynhelir y Llys ar 7 Mawrth 2018 am 4.00 yr hwyr yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth. 5.9 Nodwyd y cynhelir y Cynulliad Blynyddol ar 7 Mawrth 2018 am 6.00 yr hwyr yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau, Prifysgol Aberystwyth.	Ysgrifennydd i gylchredeg	Ebrill/Mai yn flynyddol
6. Materion y Cadeirydd	6.1 Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ar ei waith yn ystod y tymor. 6.2 Mynychwyd cyfarfodydd gyda: • Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, ac Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, ar 28 Medi 2017. • Comisiynydd y Gymraeg. • Cyfarwyddwyr y Coleg, heblaw am ddau. 6.3 Adroddodd y bu ynghlwm â'r gwaith o adolygu Llywodraethiant y Coleg a diolchodd i'r Athro Iwan Davies am ei arweiniad. 6.4 Adroddodd bod trefniadau diwygiedig ar gyfer adolygu perfformiad wedi eu cytuno gyda'r Prif Weithredwr ac yn weithredol ers Medi 2017. 6.5 Estynnwyd llongyfarchiadau i staff y Coleg ar eu gwaith yn trefnu digwyddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol gan gynnwys y Pafiliwn Gwyddoniaeth.		

7. Adroddiad y Prif Weithredwr **(Eitem 7)**	7.1 Derbyniwyd crynodeb llafar gan y Prif Weithredwr o'r adroddiad ysgrifenedig oedd wedi ei gylchredeg o flaen llaw. **Eisteddfod Genedlaethol** 7.2 Adroddwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r Eisteddfod Genedlaethol i ymestyn trefniant y Babell Wyddoniaeth a bod cytundeb mewn egwyddor ar drefniant newydd o 2019 hyd 2021. **Canghennau'r Coleg** 7.3 Dosbarthwyd adroddiadau cryno, er gwybodaeth, o weithgareddau'r Canghennau. **Ysgoloriaethau** 7.4 Adroddwyd bod y Grŵp Ymgynghorol, sy'n cynnwys cydlynwyr darpariaeth cyfrwng Cymraeg y sefydliadau, yn adolygu trefniadau'r ysgoloriaethau. Yn ystod trafodaeth ar yr ysgoloriaethau holwyd cwestiwn am ysgoloriaethau wedi eu noddi gan awdurdodau addysg. Yn dilyn cwestiwn arall, cytunwyd i gynnal trafodaeth gydag Ymddiriedolaeth William Salesbury i gadarnhau trefniadau eu hysgoloriaethau a'r cyswllt rhwng y Coleg a'r Ymddiriedolaeth. **Cynllun Cymraeg Gwaith** 7.5 Adroddwyd bod y Coleg wedi sefydlu partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn gweithredu'r cynllun Cymraeg Gwaith yn y prifysgolion.	Y Coleg i drafod gyda swyddogion Ymddiriedolaeth William Salesbury	

	Mae'r Coleg yn derbyn grant ychwanegol o £250,000 ar gyfer y gwaith hwn. **Cyfarfodydd Cynllunio** 7.6 Adroddwyd bod y cyfarfodydd cynllunio gyda'r prifysgolion wedi'u cynnal yn gynnar yn ystod y tymor i adnabod meysydd cymwys ar gyfer grantiau pynciol yn 2018/19 a thu hwnt. Nododd aelodau'r Bwrdd eu bodlonrwydd ar ddatblygiad a threfniadaeth y grantiau pynciol. **Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon** 7.7 Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad o agweddau o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon cyfrwng Cymraeg ac y byddai'r Coleg yn cyfrannu at yr adolygiad. **Cynllun Gweithredu 2017/18** 7.8 Adroddwyd bod cyfarfod monitro gyda Llywodraeth Cymru wedi cael ei gynnal ym mis Gorffennaf ac y byddai cyfarfod pellach ym mis Rhagfyr. Roedd diweddariad wedi ei ddosbarthu i aelodau'r Bwrdd er gwybodaeth. **Diweddariadau cyffredinol ar waith y Coleg** 7.9 Derbyniwyd adroddiadau ysgrifenedig mewn perthynas â Marchnata a Chyfathrebu; Gwasanaethau Gwybodaeth; Hyfforddiant Academaidd a Datblygu Staff; a Gwerddon a phrosiectau cyhoeddi eraill, er gwybodaeth. **Adroddiad blynyddol**		

	7.10 Cyhoeddir adroddiad blynyddol y Coleg yn y cyfarfod blynyddol ar 7 Mawrth 2018.		
8. Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen: diweddariad **(Eitem 8)**	8.1 Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Adroddodd y bydd ymateb ffurfiol yr Ysgrifennydd Cabinet i'r holl argymhellion yn cael ei gyhoeddi'n fuan. **Ysgoloriaethau** 8.2 Wrth ddisgwyl ymateb ffurfiol y Llywodraeth mae'r Coleg wedi cychwyn ar y gwaith o adolygu trefniadau'r ysgoloriaethau israddedig a Lefel Meistr. Cyflwynir argymhellion yr adolygiad i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 8 Mawrth 2018. **Marchnata** 8.3 Adroddwyd bydd y Coleg yn datblygu: • cynyddu dilyniant myfyrwyr iau gyda phrosiectau peilot yng nghyd-destun ehangach y mesur iaith. • Ehangu'r gwaith o ddatblygu darpariaeth iaith Gymraeg yn yr ysgolion dwyieithog gyda phrosiectau dichonolrwydd. • Taro cydbwysedd rhwng hybu a hyrwyddo'r ddarpariaeth a gadael i'r prifysgolion farchnata. Nodwyd yr ymgorfforir rhain i'r cynllun gweithredu newydd. Nodwyd y bydd swyddogion y Coleg yn paratoi Strategaeth Gyfathrebu yn ystod tymor y Gwanwyn ac yn ei gyflwyno i'r Bwrdd maes o law.	Adroddiad Ysgoloriaethau Strategaeth Gyfathrebu i'w gyflwyno i'r Bwrdd	8 Mawrth 2018 20 Mehefin 2018

	Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd nodwyd y pwyntiau canlynol: • Bod gwaith sylweddol yn disgyn ar ysgwyddau rhai swyddogion cangen. Atgoffwyd yr aelodau bod y Coleg yn disgwyl i'r prifysgolion ddarparu cefnogaeth addas i'r swyddogion cangen. • Argymhellwyd y dylid adnabod llysgenhadon o fewn ysgolion i'r Coleg gydweithio â nhw, eu hyfforddi a rhoi gwybodaeth berthnasol iddynt. • Defnydd o adnoddau megis clipiau fideo. • Anhawster cydweithio gyda Gyrfa Cymru oherwydd ail-strwythuro. • Cynllun Seren – i'w drafod yng nghyfarfod mis Mawrth. 8.4 Adroddodd y Prif Weithredwr ar yr argymhelliad o greu strategaeth addysg bellach/ôl-16 ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r trafodaethau ar y mater hwn yn parhau. 8.5 Yn dilyn trafodaeth nodwyd pwysigrwydd sicrhau ffrwd cyllid digonol ar gyfer ehangu'r gwaith ym maes addysg bellach/ôl-16. 8.6 Cytunwyd i awdurdodi'r Prif Weithredwr i weithredu'r camau i sefydlu Grŵp Cynllunio mewn ymgynghoriad â swyddogion Llywodraeth Cymru.	Dogfen trafod Seren	8 Mawrth 2018
9. Cymrodyr er anrhydedd 2018 **CYFRINACHOL**	9.1 Cymeradwywyd gwahodd yr Athro Gareth Roberts a Gwerfyl Roberts i dderbyn Cymrodoriaeth adeg y Cynulliad Blynyddol yn Aberystwyth ar 7 Mawrth 2018. Cytunwyd cydnabod cyfraniad y diweddar Arglwydd Gwilym Prys Davies yn ogystal. Pwysleisiwyd bod yr enwau'n parhau'n gyfrinachol tan y cyhoeddiad swyddogol.		

10. Materion Staffio	10.1 Nid oedd materion staffio i'w hadrodd.		
11 Materion Archwilio a Risg	**Pwyllgor Archwilio a Risg** 11.1 Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2017. **Penodi Archwilwyr Mewnol ac Allanol** 11.2 Cymeradwywyd amserlen penodi archwilwyr mewnol ac archwilwyr allanol. **Y Gofrestr Risg** 11.3 Cyflwynwyd adroddiad ar y newidiadau i'r Gofrestr Risg gan y Cofrestrydd. Yn dilyn cyngor y Pwyllgor Archwilio a Risg bydd y Gofrestr yn cael ei ddiwygio i gynnwys pum risg strategol yn unig. Nodwyd y Gofrestr Risg. **Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg** 11.4 Cymeradwywyd argymhelliad y Cadeirydd i benodi William Callaway yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.		
12. Materion Cyllid **(Eitem 11)**	**Cyfrifon Archwiledig y Coleg 2016/17** 12.1 Cyflwynwyd Cyfrifon Archwiliedig y Coleg ar gyfer 2016/17 gan y Cofrestrydd. 12.2 Adroddwyd mai dyma gyfrifon cyntaf y Coleg dan ganllawiau diwygiedig FRS102. Cyfeiriwyd at y gwarged llai a'r gwahaniaethau yn y gwariant. Nodwyd barn cadarnhaol yr archwilwyr allanol.		

	12.3 Yn sgil newid dyddiad yng ngrant cyllido Llywodraeth Cymru cymeradwywyd newid y flwyddyn gyfrifo o 1 Awst – 31 Gorffennaf i 1 Ebrill – 31 Mawrth. 12.4 Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a chytunwyd i'w cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau erbyn 31 Rhagfyr 2017 ac i'r Comisiwn Elusennau erbyn 31 Ionawr 2018. **Polisi Buddsoddiadau** 12.5 Cafwyd trafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio a Risg, ar 7 Tachwedd 2017, ar fframwaith Polisi Buddsoddiadau ar gyfer y Coleg. Yn ystod y drafodaeth darparwyd arweiniad i'r swyddogion ac fe'u hawdurdodwyd i ddatblygu Polisi Buddsoddiadau mewn ymgynghoriad â chynghorwyr i'w gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 8 Mawrth 2018. 12.6 Cafwyd trafodaeth ar egwyddorion moesol ar gyfer y Polisi a chytunwyd y dylid cysoni'r egwyddorion gydag egwyddorion cyffredinol Llywodraeth Cymru.	Polisi Buddsoddiadau i'r Bwrdd	8 Mawrth 2018
13. Bwrdd Academaidd	13.1 Nodwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2017. 13.2 Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau'r cyfarfod gan y Deon, Dr Hefin Jones. 13.3 Nododd y bydd angen edrych ar y Bwrdd Academaidd yng nghyd-destun addysg bellach. 13.4 Nododd ei fod eisoes wedi ymweld â Phrifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant ar ei daith flynyddol, lle mae aelodau o'r Gangen yn eistedd ar brif bwyllgorau'r Brifysgol erbyn hyn.		

	13.5 Nododd bod y nifer fwyaf o enwebiadau wedi dod i law ar gyfer Gwobr Goffa Eilir Hedd Morgan a gyflwynir yn y Cynulliad Blynyddol ar 7 Mawrth 2018. 13.6 Nododd ei ofid, fel Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff, ynghylch cytundebau rhai o'r staff a gyllidir gan y Coleg, nad oedd yn ymwybodol o'i sefyllfa tan i'w cytundebau dod i ben. Mewn ymateb adroddodd y Prif Weithredwr bod llawer o amser wedi ei dreulio ar sefyllfaoedd unigol.		
14. Unrhyw fater arall	14.1 Nodwyd mai dyma oedd cyfarfod olaf Dr Gwennan Schiavone gan ei bod wedi derbyn swydd gydag ERW. Nodwyd ei chyfraniad i ddatblygiad y Dystysgrif Sgiliau Iaith a gwaith y Coleg ym maes hyfforddiant cychwynnol athrawon. O ran polisi, cyflwynodd tystiolaeth yn un o bwyllgorau'r Cynulliad. Lluniodd nifer o geisiadau cyllidol ar ran y Coleg, a gwasanaethu fel Ysgrifennydd cyntaf y Coleg. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad a dymunwyd yn dda iddi yn ei her newydd.		
15. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	15.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf: • Cyfarfod y Llys, 7 Mawrth 2018, Aberystwyth • Cyfarfod y Bwrdd, 8 Mawrth 2018, Aberystwyth • 20 Mehefin 2018, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam 15.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith.		